**CYNGOR BRO MACHNO**

**Cofnodion** cyfarfod 11 Mai, 2017 a gynhaliwyd yn Festri Salem am 7.30.

**Presennol:** Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Colin Jones, Dewi Jones, Eifion Davies, Sian Anwyl Jones, Eryl Owain a'r Cynghorydd Wyn Ellis Jones.

Ymddiheuriadau gan Geraint Thomas, Claire Roberts a Lyn Mcfadden.

Cafwyd gair o groeso i'r tri aelod newydd o'r cyngor, sef Sian Anwyl Jones, Claire Roberts a Lyn Mcfadden.

**Derbyniwyd cofnodion** cyfarfod o'r Cyngor ar 9 Mawrth, 2017 fel rhai cywir.

Mabwysiadwyd Cod Ymddygiad ar gyfer cynghorwyr. Nid oedd gan unrhyw gynghorydd ddatganiad o ddiddordeb i'w gofnodi ar y Gofrestr.

Trafodwyd y materion canlynol:

**Toiledau** – cafwyd adroddiad o'r sefyllfa ddiweddaraf gan y clerc ac eglurodd fod y gwaith wedi ei gwblhau a'i fod yn aros am ymateb gan Gyngor Sir Conwy o ran pryd yn union bydd y toiledau'n cael eu hagor a phryd y byddai'r eiddo'n cael ei drosglwyddo i Gyngor Bro Machno. Byddai angen i'r cyngor bro yswirio'r adeilad a gofalu am lanhau.

**Materion Ffyrdd** – nodwyd bod cerbydau'n parcio ar ochr y ffordd ger caffi'r *Conwy Falls* yn achosi problemau ar adegau ac y dylid tynnu sylw at hynny. Hefyd tynnu sylw Adran Priffyrdd y Cyngor Sir at beryglon y ffos ddofn ar ochr ffordd Wybrnant.

**Mynwent Arwelfa** – wedi cynnal arolwg pellach o gyflwr y wal, penderfynwyd nad oes angen gweithredu ond cynigiwyd rhestr o gontractwyr i gael prisiau ganddynt pe byddai angen gweithredu ar frys.

**Cartrefi Conwy** – cafwyd adroddiad gan Dafydd Gwyndaf ac Eryl Owain ar y cyfarfod a gafwyd ynglŷn â maes parcio Bron-y-waen. Roedd nifer o'r cerbydau a oedd wedi eu gadael yn y maes parcio wedi eu symud oddi yno cyn y cyfarfod. Bydd Cartrefi Conwy'n ystyried sut y gellir tacluso'r safle ac a ddylid cael mynediad arall.

**Materion traffig** – cafwyd adroddiad gan D.G ac E. O. ar y cyfarfod a gafwyd efo cynrychiolwyr o Adran Draffig y cyngor sir. Dywedwyd y bydd yn bosib gosod gwaharddiad 30 Milltir yr Awr ger Ty'n-y-groes. Bydd yr adran yn ystyried ymhellach sut y gellir gwella'r rhybuddion 30 MyA ar ffordd Cwm a hefyd yr angen am waharddiad 20 Milltir yr Awr yng Nghwm Penmachno.

**Cyfoeth Naturiol Cymru** – penderfynwyd gofyn am gyfarfod gyda chynrychiolwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru i drafod eu cynlluniau ar gyfer torri coed ac ail-blannu. Hefyd trafod pa ffyrdd y bydd y loriau'n eu defnyddio gan ddatgan bod angen osgoi loriau trymion yn croesi'r bont ger y Ffatri Wlân.

**Sgipiau Cymunedol** – penderfynwyd llogi sgipiau ar gyfer Penmachno a Chwm Penmachno.

**Materion Ariannol** – eglurodd y clerc y rheolau cyllidol a chafwyd bod popeth mewn trefn. Mabwysiadwyd trefn Rheoli Risg a chadarnhawyd bod angen dau lofnod ar bob siec.

Cyflwynwyd adroddiad ariannol blynyddol gan y clerc ac amcangyfrif o'r gwariant tebygol dros y flwyddyn i ddod. Nid yw'r cyngor mewn dyled ac mae digon o gyllid wrth gefn i gwrdd a'r gofynion tebygol. Derbyniwyd yr adroddiad – Eryl Owain yn cynnig a Colin Jones yn cefnogi.

Awdurdodwyd y clerc i gysylltu â chwmni J. Llywelyn Hughes ar gyfer archwiliad mewnol o gyfrifon a gweithdrefnau'r cyngor.

Penderfynwyd codi cyflog y clerc i £800; cynigydd Eryl Owain, eilydd Eifion Davies.